

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

94 Dental, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 13 Tachwedd 2025

Dyddiad cyhoeddi: 13 Chwefror 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4. Y Camau Nesaf	22
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	24
Atodiad C - Cynllun gwella	28

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o 94 Dental, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 13 Tachwedd 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 38 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd 3 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Canmolwyd profiad cleifion yn 94 Dental, gyda phob un o'r cleifion a holwyd yn disgrifio'r gwasanaeth fel 'da iawn' neu 'dda'. Cafodd y staff eu canmol am eu proffesiynoldeb, eu natur gyfeillgar a'u gallu i roi tawelwch meddwl i gleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am yr opsiynau triniaeth a'u bod yn cael eu cynnwys yn eu gofal. Ystyriwyd bod y practis yn lân ac yn hygyrch ar y cyfan. Nododd rhai cleifion y gellid gwella'r prosesau ar gyfer cysylltu â'r practis i drefnu apwyntiadau. Fodd bynnag, roedd y practis yn cwblhau atgyfeiriadau at wasanaethau eraill mewn modd amserol. Nid oedd llawer o ddeunyddiau hybu iechyd i'w gweld ac nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol ar waith i gefnogi cleifion nad oeddent yn gallu siarad neu ddarllen Saesneg yn hawdd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob dull cysylltu i drefnu apwyntiadau ar gael yn gyson.
- Darparu amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau i hybu iechyd y geg, gan gynnwys rhoi'r gorau i smygu, lleihau cymeriant siwgr, ymwybyddiaeth o alcohol.
- Rhoi gwasanaeth cyfieithu ffurfiol ar waith i gleifion nad ydynt yn gallu siarad Saesneg
- Sicrhau bod gwybodaeth i gleifion ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, megis print bras, fersiynau hawdd eu deall ac ieithoedd amgen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gwybodaeth am opsiynau triniaeth, risgiau a chostau yn cael ei rhoi
- Gwelsom enghreifftiau o ofal llawn parch ac roedd mesurau preifatrwydd ar waith
- Roedd atgyfeiriadau at wasanaethau eraill yn cael eu cwblhau mewn modd amserol lle roedd eu hangen.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y safle yn ddiogel ar y cyfan a'i fod mewn cyflwr boddhaol. Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch ac yn datgan eu bod yn gwybod beth y byddent yn ei wneud mewn argyfwng. Roedd cofnodion cynnal a chadw trydan, nwy a chyfarpar diogelwch tân yn dangos bod gwiriadau diogelwch dilys a chyfredol ar gael ar gyfer yr holl asedau. Fodd bynnag, roedd angen

adolygu'r arolygiad gosodiadau trydanol bob 5 mlynedd. Roedd polisïau atal a rheoli heintiau priodol ac amserlen lanhau gadarn yn cefnogi arferion glanhau cyffredinol effeithiol. Roedd y cofnodion clinigol a oedd yn cael eu cadw yn awgrymu gofal deintyddol o ansawdd uchel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi pryderon o ran dihalogi a storio offer deintyddol. Roedd polisi rheoli meddyginiaethau addas ar waith. Archebwyd yr eitemau o gyfarpar brys a oedd ar goll ar ddiwrnod yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd angen gwella'r trefniadau ar gyfer cynnal cyflenwad o gyffuriau brys. At hynny, nid oedd yr asesiadau risg rhag ymbelydredd na'r trefniadau ar gyfer cynnal a chadw'r peiriant Tomograffeg Gyfrifiadurol Pelydr Côn (CBCT) yn gyflawn ychwaith.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Roedd yr asesiadau risg rhag ymbelydredd a'r archwiliad critigol ar gyfer y peiriant CBCT ar goll
- Nid oedd yr arferion dihalogi yn sicrhau gweithdrefnau atal a rheoli heintiau diogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal arolygiad gosodiadau trydanol pellach a chwblhau unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau y caiff unrhyw broblemau trydanol eu datrys
- Cadw cofnodion cynhwysfawr o wiriadau o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau bod yr eitemau gofynnol ar gael yn gyson i'w defnyddio os ceir argyfwng meddygol y practis
- Sicrhau bod yr holl fanylion cyswllt a'r hyfforddiant perthnasol ar waith i alluogi'r staff i gyflawni eu dyletswydd gofal o ran diogelu yn llawn
- Cofnodi dewisiadau iaith a chydysyniad ar sail gwybodaeth fel mater o drefn yng nghofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cofnodion clinigol o ansawdd uchel
- Roedd rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol yn cael eu defnyddio i atal achosion o dynnu'r dant anghywir
- Atgyfeiriadau dilynol priodol at wasanaethau eraill.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom strwythur rheoli clir a chydberthnasau cadarnhaol rhwng y staff. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd cyfleoedd datblygu i'r staff yn cael eu cefnogi drwy broses arfarnu flynyddol. Roedd y practis yn ymgymryd â gweithgareddau hunanwerthuso a meincnodi ac yn cynnal

archwiliadau rheolaidd. Fodd bynnag, gellid atgyfnerthu'r trefniadau hyn ymhellach.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Creu a chadw ffeiliau personol ar gyfer y staff er mwyn sicrhau y caiff telerau ac amodau contract ac addasrwydd y staff eu cofnodi adeg eu cyflogi ac y caiff tystiolaeth glir ei chadw'n barhaus
- Cynnal archwiliadau rheolaidd mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu ac archwiliadau IR(ME)R rheolaidd gan ddefnyddio adnoddau AaGIC.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cymysgedd sgiliau a lefelau staffio priodol ar y cyfan
- Aelodau hirsefydlog o'r tîm yn rhoi cymorth i'w gilydd
- Cydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn Atodiad B.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Roedd sylwadau'r cleifion yn canmol proffesiynoldeb staff y practis a'u natur ofalgar a chyfeillgar. Nododd y cleifion hefyd sut roedd yr ymarferwyr yn rhoi tawelwch meddwl iddynt. Dywedodd llawer o'r cleifion fod y practis hwn yn well na rhai eraill roeddent wedi bod iddynt.

Roedd y rhan fwyaf yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' eu bod yn cael digon o wybodaeth am yr opsiynau triniaeth, y risgiau, y manteision a'r costau ac roedd bron pob ymatebydd o'r farn eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn cael cyfarwyddiadau ôl-ofal a chanllawiau clir ynghylch sut i gysylltu mewn argyfwng. Nododd rhai lai o eglurder o ran datrys cwynion. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion o'r farn bod y practis yn lân iawn a'i fod yn hygyrch.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Staff ardderchog, proffesiynol iawn.”

“Rwy'n berson nerfus iawn pan fyddaf yn mynd at y deintydd. Gwnaed i mi deimlo'n gysurus iawn...”

“Fyddwn i ddim am gael gofal gan unrhyw ddeintyddfa arall. Mae pob aelod o fy nheulu yn cael ei drin ar lefel bersonol a does dim byd yn ormod o drafferth i'w esbonio, hyd yn oed i fy mhlant pan fyddan nhw'n gofyn cwestiynau.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod ffolder gwybodaeth y practis yn yr ystafell aros yn cynnwys gwybodaeth am yr Asesiad o Risgiau ac Anghenion Clinigol y Geg (ACORN) er mwyn tynnu sylw at gyngor atal a helpu'r cleifion i ddeall iechyd eu ceg. Roedd y ffolder gwybodaeth i gleifion hefyd yn cynnwys taflenni i godi ymwybyddiaeth o ganser y geg a sepsis.

Gwelsom fod sgrin arddangos yn yr ystafell aros yn dangos gwybodaeth ar system ddolen a bod taflenni a phosteri eraill i'w gweld. Fodd bynnag, roedd y rhain yn canolbwyntio ar hysbysebu'r gwasanaethau sydd ar gael yn y practis, nid ar hylendid y geg a hybu iechyd. Nid oedd gwybodaeth hybu iechyd i'w gweld ar wefan y practis ychwaith.

Dywedwyd wrthym fod deunyddiau penodol wrthi'n cael eu cynhyrchu ar gyfer y practis er mwyn cynnig amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau hybu iechyd y geg. Fodd bynnag, nid oedd taflenni cyffredinol yn ymwneud â meysydd allweddol rhoi'r gorau i smygu, lleihau cymeriant siwgr ac ymwybyddiaeth o alcohol ar gael i'r cleifion eu defnyddio wrth i'r wybodaeth benodol gael ei chreu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth sy'n hybu iechyd y geg ar gael yn hwylus i'r cleifion.

Nodwyd gennym fod rhestrau prisiau ar gyfer deintyddiaeth y GIG a deintyddiaeth breifat wedi'u cyhoeddi ar wefan y practis ac i'w gweld ar safle'r practis.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd pob trafodaeth a glywsom rhwng staff y practis a'r cleifion yn barchus. Er bod gan y dderbynfa a'r ardal aros gynllun agored, roedd desg y dderbynfa ar ffurf arbennig ac yn cynnwys sgrin breifatrwydd er mwyn diogelu gwybodaeth y cleifion yn ystod sgysiau wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Cawsom wybod hefyd y byddai unrhyw sgysiau neu alwadau ffôn sensitif yn cael eu cynnal yn y deintyddfeydd er mwyn diogelu cyfrinachedd y cleifion. Roedd gan y deintyddfeydd ddrysau solid addas ac roedd bleinds ar y ffenestri er mwyn sicrhau preifatrwydd.

Gwelsom fod cytundeb cyfrinachedd cleifion yn rhan o gontractau cyflogaeth y staff ac roedd pob un a ymatebodd i holiadur staff AGIC yn 'cytuno'n gryf' fod y practis yn llwyddo i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd pob un a ymatebodd i arolwg cleifion AGIC yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gael yn ardal aros y cleifion.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn, ar-lein neu wyneb yn wyneb. Roedd y rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau wedi'i arddangos y tu allan i'r practis, yn y Datganiad o Ddiben a oedd wedi'i gyhoeddi ar wefan y practis ac roedd i'w glywed ar neges peiriant ateb y practis. Fodd bynnag, cafwyd barn gymysg ymhlith y rhai a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrth drafod pa mor hawdd yw hi i drefnu apwyntiadau, gyda rhai cleifion (6/38) o'r farn nad yw hi'n hawdd iawn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud yn siŵr bod pob dull cysylltu i gleifion drefnu apwyntiadau ar gael yn gyson er mwyn sicrhau y gallant gael gafael ar ofal deintyddol yn hawdd.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal deintyddol cyffredin a gofal deintyddol brys, gydag un o'r deintyddion yn cadw apwyntiadau er mwyn ymateb i anghenion brys. Roedd meini prawf ar waith i helpu staff y dderbynfa i weithredu'r broses frysbenno gychwynnol er mwyn deall anghenion y claf a'r amserlenni priodol ar gyfer apwyntiadau. Roedd rhestr ar gyfer apwyntiadau wedi'u canslo a system ar gyfer cysylltu â chleifion cyn apwyntiadau wedi'u trefnu hefyd ar waith er mwyn lleihau nifer yr apwyntiadau a oedd yn cael eu colli a galluogi gofal amserol. Gan fod cyfraddau uchel o gleifion wedi methu apwyntiadau yn ddiweddar, roedd hysbysiad wedi'i arddangos i annog cleifion i fynychu apwyntiadau yn y dyfodol. Cawsom wybod y byddai cleifion yn gyffredinol yn aros hyd at bedair wythnos am apwyntiadau gofal deintyddol cyffredin. Fodd bynnag, nododd un person ei fod wedi cael sawl problem o ran amseroldeb apwyntiadau.

Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael gwybod mewn da bryd pe bai apwyntiadau yn rhedeg yn hwyr. Nododd un o'r deintyddion ei fod wedi bod yn rhoi cynnig ar ddechrau ei ddiwrnod gwaith yn gynt er mwyn helpu i sicrhau bod apwyntiadau yn rhedeg yn brydlon a bod y broses hon wedi bod o fudd i gleifion a staff hyd yma. Gwelsom dystiolaeth fod atgyfeiriadau at wasanaethau eraill fel arfer yn cael eu cwblhau ar y diwrnod y cafodd yr angen ei nodi er mwyn helpu i sicrhau parhad gofal amserol i'r cleifion.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod dogfennau allweddol, megis naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, cofrestriad AGIC a gweithdrefn gwyno'r practis, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelod o staff y practis yn gallu siarad Cymraeg. Dangosodd trafodaethau yn ystod yr arolygiad fod angen i'r practis wneud y Cynnig Rhagweithiol i siaradwyr Cymraeg ac, yn ystod y dydd, paratowyd arwydd 'Iaith Gwaith' a chafodd ei arddangos yn yr ardal aros. Awgrymwyd gennym y gellid defnyddio hyfforddiant ac adnoddau'r bwrdd iechyd i atgyfnerthu dealltwriaeth y practis ymhellach a'i helpu i roi'r Cynnig Rhagweithiol ar waith.

Cawsom wybod fod aelodau unigol o'r staff yn gallu siarad amrywiaeth o ieithoedd a bod hyn o fudd wrth gyfathrebu â chleifion nad oeddent yn gallu siarad Saesneg. Fodd bynnag, nid oedd gwasanaeth cyfieithu ffurfiol ar gael.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ffurfiol, fel Language Line, ar waith yn y practis er mwyn helpu cleifion nad ydynt yn gallu siarad Saesneg.

Gwnaethom edrych ar ddeunyddiau gwybodaeth i gleifion y practis a nodwyd mai dim ond mewn fformatau print bach roedd y wybodaeth honno ar gael ac felly nad oedd yn diwallu amrywiaeth o anghenion cyfathrebu. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd dolen sain ar gael. Dywedwyd wrthym, pe byddai angen, y byddai aelod o'r tîm deintyddol yn trafod dogfennau â chlaf pe na fyddai'r claf hwnnw yn gallu darllen y wybodaeth. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym hefyd fod copïau papur yn fuddiol iawn wrth roi gwybodaeth i gleifion nad oedd ganddynt fynediad cystal i ddyfeisiau digidol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion ar gael lle y bo'n briodol mewn fformatau fel print bras, fersiynau hawdd eu deall ac ieithoedd amgen.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hyrwyddo drwy bolisiau'r practis a hyfforddiant perthnasol i'r staff. Roedd nodweddion gwarchodedig yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Ddiben.

Roedd y mwyafrif o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod yr adeilad yn hygyrch (33/38). Nododd adborth gan gleifion fod y coridorau cul yn ffactor a allai atal cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn rhag mynychu a bod diffyg lleoedd parcio ar y safle yn rhwystr posibl i bobl nad oeddent yn gallu cerdded pellter hir. Fodd bynnag, roedd ramp i fynedfa'r practis a'r ardaloedd trin ar y llawr gwaelod er mwyn helpu cleifion ag anawsterau symudedd i allu cael gofal deintyddol. Ystyriwyd bod y seddau a oedd ar gael yn yr ardal aros yn addas ar gyfer amrywiaeth o anghenion. Roedd digon o le yn nhoiledau'r cleifion i gadair olwyn ac roedd canllawiau wedi'u gosod. Gwnaethom drafod gosod cortyn tynnu er mwyn i gleifion allu galw am gymorth brys pe bai ei angen. Roedd poster yn y ffolder gwybodaeth i gleifion yn gwahodd unigolion i roi gwybod i staff y practis am unrhyw anghenion cymorth er mwyn gallu gwneud addasiadau rhesymol.

Dywedwyd wrthym fod yr enwau a'r rhagenwau a ffefrir yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod y safle yn lân ac yn ddiogel ar y cyfan a'i fod mewn cyflwr boddhaol. Roedd asesiad risg iechyd a diogelwch a chynllun parhad busnes ar waith a nododd y staff eu bod yn gwybod beth y byddent yn ei wneud mewn argyfwng.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio cyfarpar deintyddol priodol, ei fod mewn cyflwr da a bod digon o eitemau ar gael fel bod modd eu dihalogi ar ôl eu defnyddio.

Gwnaethom edrych ar gofnodion cynnal a chadw trydan, nwy a chyfarpar diogelwch tân a gwelsom fod gwiriadau diogelwch dilys a chyfredol ar gael ar gyfer yr holl asedau. Fodd bynnag, roedd nifer o broblemau posibl yr oedd angen sylw brys arnynt wedi cael eu nodi yn yr arolygiad gosodiadau trydanol bob pum mlynedd yn 2022, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael bod camau dilynol wedi'u cymryd i ymdrin â'r rhain. Dywedwyd wrthym fod trydanwr â chymwysterau addas yn dod i'r practis y diwrnod ar ôl yr arolygiad ac y byddai'r adroddiad ar yr arolygiad gosodiadau trydanol yn cael ei drafod ag ef er mwyn llunio cynllun addas.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr arolygiad gosodiadau trydanol a'r adroddiad profi eu hadolygu gan drydanwr â chymwysterau addas ac y caiff yr holl gamau sydd eu hangen i sicrhau diogelwch trydanol eu rhoi ar waith, gan roi tystiolaeth o hynny i AGIC.

Gwelsom fod asesiad risg tân wedi cael ei gynnal yn ddiweddar gan gwmni allanol a bod yr argymhellion wrthi'n cael eu rhoi ar waith. Roedd y cyfarpar canfod tân yn cael ei brofi'n rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth fod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân priodol. Roedd arwyddion clir ar gyfer y llwybrau i'w dilyn i adael mewn argyfwng ac roedd y cynllun ar gyfer gwagio'r adeilad a'r man ymgynnull i'w gweld yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom fod poster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos mewn man priodol i'r staff gyfeirio ato. Gwelsom dystysgrifau Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr y practis yn y ffolder gwybodaeth i gleifion i ddechrau a chafodd copïau ohonynt eu harddangos hefyd erbyn diwedd yr arolygiad.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisiau atal a rheoli heintiau priodol ar waith a bod amserlen lanhau gadarn yn cefnogi arferion glanhau cyffredinol effeithiol.

Nid oedd cynllun y practis yn cynnwys ardal ddihalogi ddynodedig ac felly roedd prosesau dihalogi yn cael eu cynnal yn y deintyddfeydd. Roedd y prosesau ar gyfer glanhau â llaw, defnyddio awtoclaf a chludo eitemau brwnt a glân ar wahân o amgylch y practis yn foddhaol. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd llif eitemau o ardaloedd brwnt i ardaloedd glân yn y deintyddfeydd yn glir a bod yr arferion rheoli heintiau a oedd ar waith yn peri risg uchel y byddai offer wedi'i sterileiddio yn cael ei halogi eto cyn ei ddefnyddio. Er bod arweinydd atal a rheoli heintiau wedi'i benodi a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar atal a rheoli heintiau a dihalogi, dangosodd trafodaethau am arferion atal a rheoli heintiau a dihalogi fod angen gwella dealltwriaeth o egwyddorion atal a rheoli heintiau a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith.

Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â'r materion hyn o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn Atodiad B.

Gwelsom fod rhagofalon addas ar waith i ymateb i gleifion sy'n nodi bod ganddynt COVID neu salwch anadlol arall er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint. Roedd y staff yn ymwybodol o'r protocol anafiadau offer miniog. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael drwy'r bwrdd iechyd pan fyddai eu hangen.

Gwelsom fod contractau a chyfleusterau addas ar waith ar gyfer rheoli gwastraff. Gwelwyd asesiadau risg cynhwysfawr a pholisi'r practis ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd a'r rhagofalon cysylltiedig. Cawsant eu rhoi ar waith yn llawn erbyn diwedd yr arolygiad.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi rheoli meddyginiaethau addas ar waith. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel ac roedd cofnodlyfrau yn cadw cofnod o'r holl feddyginiaethau a oedd yn cael eu rhoi. Roedd tymereddau'r oergelloedd storio meddyginiaethau yn cael eu gwirio bob dydd ac roedd oergell wrth gefn ar gael pe byddai'r tymheredd y tu allan i'r ystod tymheredd dderbyniol.

Roedd y cleifion yn cael eu hatgoffa drwy arwyddion i roi gwybod i'w deintydd am unrhyw ddiweddariadau i'w hiechyd neu eu hanes meddygol.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol i ymateb i argyfyngau meddygol a bod gweithdrefnau lleol addas ar waith.

Gwelsom fod y cyffuriau brys yn bodloni'r canllawiau cenedlaethol a dywedwyd wrthym fod gwiriadau o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu cwblhau yn rheolaidd. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y gwiriadau hyn yn cael eu dogfennu'n rheolaidd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y cedwir cofnod cynhwysfawr o'r gwiriadau o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys.

Gwelsom fod rhai eitemau o gyfarpar brys ar goll. Cawsant eu harchebu ar ddiwrnod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Diogelu plant ac oedolion

Dywedwyd wrthym fod y staff yn glir o ran eu cyfrifoldebau pe baent yn nodi pryder diogelu. Roedd polisi a gweithdrefn diogelu ar waith yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru. Fodd bynnag, nid oeddent yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol a sefydliadau perthnasol eraill. Lluniwyd rhestr o fanylion cyswllt addas ar ddiwrnod yr arolygiad a chafodd ei harddangos yn un o ardaloedd y staff, ochr yn ochr â'r weithdrefn diogelu. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Er bod person dynodedig ar gyfer diogelu yn y practis, nid oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar Ddiogelu Plant a Diogelu Oedolion i lefel 3, a fyddai'n sicrhau bod yr unigolyn yn gallu cyflawni ei ddyletswydd gofal yn llawn pe bai pryder diogelu yn codi.

Rhaid i'r person dynodedig ar gyfer diogelu gwblhau'r hyfforddiant ar Ddiogelu Plant a Diogelu Oedolion hyd at lefel 3.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwnaethom nodi bod y cyfarpar clinigol a oedd ar gael yn y practis yn briodol ar gyfer ei ddiben bwriadedig. Roedd protocolau addas yn sail i'r ffordd y cyflëwyd risgiau a manteision ymbelydredd ïoneiddio i gleifion ac yn golygu y gellid cael cydsyniad ar sail gwybodaeth, a chyfiawnhau, cwblhau a dadansoddi'r delweddau. Roedd yr ymarferwyr deintyddol wedi cwblhau hyfforddiant ar Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd un o'r deintyddion wedi cael ei enwebu fel y Goruchwylydd Diogelu rhag Ymbelydredd ac roedd contractau priodol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd ac Arbenigwr Ffiseg Feddygol. Fodd

bynag, roedd yn anodd dod o hyd i'r dogfennau a oedd yn ymwneud ag IR(ME)R ac roedd rhai ohonynt ar goll.

Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â'r materion hyn o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn Atodiad B.

Cawsom wybod bod archwiliadau radiograffeg mewnol yn cael eu cwblhau, ond nid oedd adnoddau sicrhau ansawdd cenedlaethol yn cael eu defnyddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y practis yn cynnal archwiliadau IR(ME)R blynyddol Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) er mwyn gwneud yn siŵr bod ei brosesau sicrhau ansawdd yn gadarn ac y caiff arferion da eu hyrwyddo.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Dywedwyd wrthym fod canllawiau proffesiynol, rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn wrth ddarparu gwasanaethau deintyddol ac y byddai'r practis yn gofyn am gyngor ychwanegol yn ôl yr angen. Roedd rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol yn cael eu defnyddio i atal achosion o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o 10 claf yn ystod ein harolygiad. Roedd cofnodion electronig a phapur yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd amserlenni cadw addas ar waith.

Roedd y cofnodion a welsom yn gynhwysfawr ac yn gadarn mewn perthynas ag asesiadau a thriniaethau clinigol, gan awgrymu bod pob un o'r ymarferwyr deintyddol yn rhoi blaenoriaeth i ofal y geg o ansawdd uchel. Fodd bynnag, nid oedd dewis iaith y claf na'r mesurau a oedd ar waith i gefnogi'r dewis hwnnw wedi'u dogfennu mewn naw allan o'r 10 cofnod, ac nid oedd cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi'i gofnodi mewn dros hanner y cofnodion hynny.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewisiadau iaith a chydsyniad ar sail gwybodaeth eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion fel mater o drefn.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y system apwyntiadau, trefniant rota lleol ar gyfer ymateb i argyfyngau deintyddol a'r cymysgedd sgiliau yn y practis ar y cyfan yn addas ar gyfer darparu gwasanaeth deintyddol i gleifion y GIG a chleifion preifat. Roedd y practis yn ystyried cynyddu nifer yr apwyntiadau â hylenydd er mwyn lleihau'r amser aros ar gyfer yr agwedd hon ar y gwasanaethau a ddarperir.

Roedd llwybrau clir ar waith ar gyfer atgyfeiriadau i mewn i'r practis ac allan o'r practis. Roedd y deintyddion yn cysylltu â chleifion a oedd wedi cael eu hatgyfeirio ymlaen at wasanaethau ysbyty gan eu bod yn amau achos o ganser y geg er mwyn cadarnhau bod camau priodol wedi'u cymryd mewn ymateb i'w hatgyfeiriad o fewn pythefnos.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd yr ymatebion i holiadur staff AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd pawb a ymatebodd yn cytuno'n gryf mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis a'u bod yn cael eu galluogi yn eu swyddi i ddarparu gofal o ansawdd o ganlyniad i lefelau staffio, cymysgedd sgiliau ac adnoddau priodol. Nododd pawb a ymatebodd y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir pe bai angen gofal deintyddol ar eu ffrindiau neu berthnasau yn y practis. Argymhellwyd y practis fel lle da i weithio.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwelsom fod strwythur rheoli clir wedi'i gyhoeddi yn Natganiad o Ddiben y practis. Roedd y rheolwr cofrestredig a'r partneriaid deintyddol oll yn aelodau hirsefydlog o'r tîm a nodwyd eu bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn cefnogi rolau ei gilydd.

Gwnaethom ddarllen cofnodion o gyfarfodydd staff a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu cynnal bob 4-5 wythnos fel arfer, neu yn ôl yr angen. Roedd croeso i'r staff gyflwyno eitemau i'w trafod ac roedd amrywiaeth o bynciau gweithredol wedi cael eu trafod yn ystod y misoedd diwethaf. Gwnaethom drafod sut y gellid gwella'r defnydd o gyfarfodydd tîm i symleiddio prosesau cyfathrebu ac i helpu i sicrhau dealltwriaeth gyson o rybuddion diogelwch, diweddariadau ar arferion gorau, ac adborth gan gleifion. Gwnaethom awgrymu hefyd y dylid dosbarthu'r cofnodion ar ffurf electronig er mwyn gwella hygyrchedd.

Gwelsom fod system electronig ar waith ar gyfer storio a chynnal polisiâu ac asesiadau risg. Roedd copïau papur o wybodaeth y byddai angen i'r staff allu cyfeirio ati'n hawdd hefyd wedi'u harddangos yn ardaloedd staff. Roedd polisiâu allweddol ar waith ac roedd llawer ohonynt wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cwblhau'r Adnodd Hunanwerthuso ar gyfer Optimeiddio Sgiliau a'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth er mwyn datblygu'r tîm o fewn terfynau amser a oedd yn ddigon diweddar. Roedd adolygiad cymheiriaid hefyd wedi cael ei gynnal gyda dau bractis arall yn yr ardal yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn gallu meincnodi.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom gydberthnasau gwaith da ymysg y staff ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Cawsom wybod fod addasiadau wedi'u gwneud i gefnogi gwahanol arddulliau cyfathrebu ymysg aelodau o staff y practis.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith a thrafodwyd enghreifftiau lle roedd aelodau o staff wedi codi pryderon â'r rheolwyr.

Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau blynyddol a chynlluniau datblygu personol ar waith i'r staff a oedd yn sail i ddatblygiad proffesiynol pellach. Roedd aelodau newydd o staff yn cael eu cefnogi drwy gyfnod sefydlu strwythuredig. Roedd y cyfleoedd hyfforddi a oedd yn cael eu darparu yn berthnasol i rolau'r staff ac roedd tystiolaeth gynhwysfawr yn cael ei chadw o gyrsiau a gwblhawyd. Roedd pawb a ymatebodd i holiadur staff AGIC yn 'cytuno'n gryf' fod y practis yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn nodi bod cyfleoedd teg a chyfartal ar gael yn y gweithle. Gwnaethom edrych ar gofnodion chwe aelod o'r staff a nodwyd gennym fod cyfraddau cydymffurfio cyffredinol â'r holl ofynion o ran hyfforddiant gorfodol yn dda.

Roedd trefniadau ar waith i gynnal rhwymedigaethau proffesiynol gweithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig. Roedd gan bob aelod perthnasol o'r staff gofrestrriad cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad proffesiynol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom fod y practis wedi tanysgrifio i wasanaeth adnewyddu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd cofnodion priodol yn cael eu cadw o frechiadau'r staff. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth o brofion sgrinio iechyd ehangach adeg cyflogi neu wedi hynny. Nid oedd geirdaon cyflogaeth yn ffeiliau'r rhan fwyaf o'r staff ychwaith. Dywedwyd wrthym ei bod hi'n aml yn anodd cael gafael arnynt. Yn ogystal, nid oedd unrhyw gontract ffurfiol yn ffeiliau rhai o'r staff, neu roedd hen fersiynau o gontractau â nifer o ddiwygiadau wedi'u hatodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff telerau ac amodau contract a geirdaon addas eu cofnodi adeg cyflogi ac y caiff tystiolaeth glir ei chadw'n barhaus i sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn y practis.

Ar ôl gweld nad oedd dull systematig ar waith ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant neu rwymedigaethau proffesiynol, gwnaethom drafod rhoi matrices neu system atgoffa electronig ar waith i roi mwy o gymorth i reolwr y practis yn hyn o beth.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod blwch awgrymiadau ar gael yn yr ardal aros i gleifion gyflwyno sylwadau ysgrifenedig a bod cleifion yn cael eu hannog i gwblhau arolwg cleifion blynyddol. Roedd llwyfannau adolygu ar-lein hefyd yn cael eu hyrwyddo ac roedd gwybodaeth am rai ohonynt wedi cael ei hargraffu ac yn cael ei harddangos yn yr ardal aros.

Gwnaethom edrych ar weithdrefn gwyno'r practis ond nodwyd gennym fod gwahanol derfynau amser ar gyfer cydnabod cwynion ac ymateb iddynt wedi'u nodi yn y polisi cwyno a'r Datganiad o Ddiben. Yn ogystal, nid oedd unrhyw gyfeiriadau clir at AGIC yn y daflen wybodaeth i gleifion er mwyn i gleifion godi pryderon neu gwynion. Nododd ymatebion i holiadur cleifion AGIC nad oedd cleifion yn cael eu hysbysu'n gyson am y broses gwyno.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gweithdrefn gwyno glir ar gyfer y practis yn cael ei darparu'n gyson yn yr holl lenyddiaeth i gleifion, yn unol â Gweithio i Wella, a'i bod yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwelsom fod y practis yn rheoli ac yn diogelu gwybodaeth mewn ffyrdd a oedd yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o ofynion llywodraethu gwybodaeth ond hefyd â phwy y dylid rhannu gwybodaeth pe bai angen ar gyfer diogelwch y cleifion a'r cyhoedd.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i gryfhau agweddau clinigol a gweithredol ar y gwasanaethau a ddarperir. Roedd yr archwiliadau hyn yn cynnwys mynediad i'r anabl, rhagnodi gwrthficrobaidd, radiograffeg, cadw cofnodion, iechyd a diogelwch, ac atal a rheoli heintiau. Nodwyd bod canfyddiadau archwiliad radiograffeg wedi arwain at brynu ffilmiau radiograffeg newydd er mwyn gwella'r delweddau, gan ddangos bod y practis wedi gwneud newidiadau o ganlyniad i'w weithgarwch archwilio.

Dywedodd deintyddion wrthym oherwydd y newidiadau roeddent wedi'u gweld o ran arferion smygu a fepio'r boblogaeth leol, nad oeddent wedi teimlo y byddai archwiliad rhoi'r gorau i smygu yn berthnasol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, byddai hyn yn helpu i sicrhau'r arferion gorau mewn lleoliadau gofal iechyd wrth annog unigolion i roi'r gorau i smygu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal yn y practis mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Dywedwyd wrthym fod cysylltiadau rhwng y practis â gwasanaethau meddygon teulu a fferyllwyr lleol er mwyn helpu i ddarparu gofal i gleifion. Roedd cyswllt â phractisau deintyddol eraill yn golygu bod modd meincnodi a threfnu staff cyflenwi mewn argyfwng. Dywedwyd wrthym fod trefniadau cyfathrebu â'r bwrdd iechyd yn sicrhau bod prosesau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, ymatebion i fesurau diogelwch cleifion a phrosesau'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael eu rhoi ar waith yn briodol. Nodwyd gennym fod y practis hefyd yn ymgysylltu'n rhagweithiol â dangosfyrddau rheoli ansawdd allanol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd llwybr anadlu oroffaryngeaidd meintiau 0 ac 1, bag hunan-chwyddo â chronfa ocsigen yn addas i blentyn na masgiau wyneb clir ar gyfer y bagiau hunan-chwyddo ar gael.	Nid oedd cyfarpar ar gael a oedd yn addas ar gyfer ymateb i argyfyngau meddygol ar gyfer pob claf.	Trafodwyd y mater â'r rheolwr cofrestredig a'r partneriaid deintyddol.	Archebwyd y cyfarpar ar ddiwrnod yr arolygiad i'w ddanfôn cyn gynted â phosibl.
Nid oedd manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol na sefydliadau eraill perthnasol mewn perthynas â diogelu ar gael yn hwylus.	Oedi wrth gysylltu â'r gwasanaethau perthnasol mewn perthynas â phryderon diogelu.	Trafodwyd y mater â'r rheolwr cofrestredig.	Lluniwyd rhestr o'r manylion cyswllt perthnasol a'i gosod yn un o ardaloedd y staff, ochr yn ochr â'r weithdrefn diogelu.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth:94 Dental

Dyddiad yr arolygiad: 13 Tachwedd 2025

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Rhaid i'r cyfarpar CBCT fod yn gweithio'n effeithiol, gyda dogfennaeth berthnasol gan gynnwys archwiliad critigol.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017, Rheoliad 15	Gan fod y cwmni wedi'i leoli yn y Gogledd. Doedd dim modd iddo ddod i gwblhau'r gwaith tan fis Rhagfyr (pan oedd gwaith arall wedi'i drefnu ganddo yn yr ardal). Rwy'n deall nad yw hyn yn dderbyniol. Gwnaethom gysylltu â'r cwmni yn syth ar ôl yr arolygiad ac rydym yn gobeithio y gellir cwblhau'r adroddiad yr wythnos hon. Nid yw'r CBCT yn cael ei ddefnyddio hyd nes y bydd yr archwiliad critigol wedi'i gynnal ac mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o hynny.	Dee Evans	24/11/2025
2. Rhaid cwblhau'r Ffeil Diogelu rhag Ymbelydredd gan gynnwys y	Rheoliadau Ymbelydredd	Ymdrinnir ag ymbelydredd yn Asesiad Risg lechyd a Diogelwch ein practis.	Dee Evans	24/11/2025

	wybodaeth berthnasol - gan gynnwys asesiad risg ymbelydredd, rheolau lleol cynlluniau wrth gefn a gweithdrefnau'r cyflogwr.	Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017, Rheoliad 6	Nid oedd y mater wedi croesi fy meddwl tan ar ôl yr arolygiad. Rwyf hefyd yn gweithio ar Ffeil Ymbelydredd ar-lein gyda DD, felly byddaf yn cwblhau Asesiad Risg ar y porth hwn. Mae'r rheolau lleol wedi'u harddangos gyda phob peiriant pelydr-X gan gynnwys y peiriant CBCT. Rydym yn cynnal archwiliad blynyddol ar ddefnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Mae polisi ar waith gennym, sef M275, ar ddefnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel (a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2025) sy'n cynnwys cynlluniau wrth gefn a gweithdrefnau'r practis.		
3.	Rhaid diweddarau'r prosesau dihalogi er mwyn sicrhau llif cyson rhwng yr ardaloedd brwnt a'r ardaloedd glân, rhoi'r gorau i ddefnyddio offer aer-sychu yn yr ardaloedd clinigol a rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer bagio eitemau a rhoi stamp dyddiad arnynt fel mater o drefn.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023): Diogel; Y Cod Ymarfer ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal lechyd (2014) Safon 2; Memorandwm	Mae pob aelod o'r staff wedi cael gwybod am y pwyntiau a godwyd gan Rebecca yn ystod yr arolygiad. Dim ond lle nad ydym yn disgwyl unrhyw gleifion y caiff eitemau offer eu tynnu o'r awtoclaf er mwyn i'r staff allu tynnu'r eitemau a'u rhoi mewn bag heb unrhyw risg o groesheintio.	Dee Evans	17/11/2025

		Technegol lechydd Cymru 01-05	Rydym hefyd yn gobeithio gallu rhoi trefn ar ein hystafell ddihalogi dros gyfnod y Nadolig, felly bydd y mater hwn wedi'i ddatrys yn llwyr.		
4.	Rhaid adolygu stampiau dyddiad ar eitemau offer wedi'u bagio yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio o hyd.	Safonau Ansawdd (2023): Diogel; Y Cod Ymarfer ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal lechydd (2014) Safon 2; Memorandwm Technegol lechydd Cymru 01-05	Mae'r rhain yn cael eu gwirio'n rheolaidd felly roeddwn wedi fy synnu o weld eich bod wedi dod o hyd i eitem â dyddiad 2023 arni. Siaradwyd â'r staff; cafodd y weithdrefn ei hesbonio eto i bob aelod o'r staff. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant rheoli heintiau diweddaraf ar-lein, ond rwyf wrthi'n chwilio am hyfforddwr allanol i ddod i'r practis i gwblhau hyfforddiant gyda phob aelod o'r staff.	Dee Evans a Corrine Lewis	24/11/2025
	Rhaid cwblhau Hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau ychwanegol, gan gynnwys modiwlau Dihalogi, a rhoi tystiolaeth i AGIC.	Safonau Ansawdd (2023): Diogel; Y Cod Ymarfer ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal lechydd (2014) Safon 2; Memorandwm Technegol lechydd Cymru 01-05	Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant rheoli heintiau diweddaraf ar-lein, ond rwyf wrthi'n chwilio am hyfforddwr allanol i ddod i'r practis i gwblhau hyfforddiant gyda phob aelod o'r staff. Unwaith y bydd yr hyfforddiant wedi'i drefnu, cewch wybod y dyddiad.		24/11/2025

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Dee Evans

Enw (priflythrennau): Dee Evans

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 17/11/2025

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: 94 Dental

Dyddiad yr arolygiad: 13 Tachwedd 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd llawer o wybodaeth yn hybu iechyd y geg ar gael i'r cleifion.	Rhaid sicrhau bod amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau hybu iechyd y geg, er enghraifft, mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu, lleihau cymeriant siwgr ac ymwybyddiaeth o alcohol ar gael i'r cleifion.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Effeithiol ac Amserol	Mae mwy o daflenni ar gael i'r cleifion. Maent bellach wedi'u harddangos yn yr ardal aros * ar gael yn y deintyddfeydd.	Dee Evans	Wedi'i gwblhau
2.	Nododd rhai cleifion eu bod yn cael anawsterau	Rhaid gwneud yn siŵr bod pob dull cysylltu i gleifion drefnu	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Amserol	Rydym yn gwneud ein gorau i ateb y	Dee Evans	Wedi'i gwblhau

	wrth gysylltu â'r practis i drefnu apwyntiadau.	apwyntiadau ar gael yn gyson er mwyn sicrhau y gallant gael gafael ar ofal deintyddol yn hawdd.		galwadau ffôn, gall cleifion adael neges a byddwn yn dychwelyd yr alwad. Gall cleifion hefyd gysylltu â ni gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac e-bost.		
3.	Nid oes unrhyw drefniant ffurfiol ar waith i helpu cleifion nad ydynt yn gallu siarad Saesneg i gael gafael ar ofal deintyddol.	Rhaid trefnu cytundeb â gwasanaeth cyfieithu ffurfiol, fel Language Line.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13(1)(a)	Gwnaed cais i Language Line er mwyn cael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio gwasanaeth y cwmni yn y dyfodol.	Dee Evans	Yn aros am ymateb
4.	Dim ond mewn fformatau print bach roedd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i gleifion.	Byddwn yn sicrhau bod fersiynau hygyrch o ddogfennau allweddol ar gael i gleifion (e.e. hawdd eu deall, print bras, ieithoedd amgen).	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13(1)(a)	Rydym yn gallu gwneud unrhyw bolisiau / dogfennau yn	Dee Evans	Wedi'i gwblhau

				fwy ar gais gan glaf		
5.	Roedd arolygiad gosodiadau trydanol a'r adroddiad profi yn gyfredol ond nid oedd problemau posibl yr oedd angen sylw brys arnynt wedi'u datrys.	Rhaid i drydanwr â chymwysterau addas adolygu'r arolygiad gosodiadau trydanol a'r adroddiad profi, rhaid sicrhau y caiff yr holl ofynion i sicrhau diogelwch trydanol eu rhoi ar waith, a rhoi tystiolaeth o hynny i AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 22(2)(a)	Cynhaliwyd y prawf eto. Mae'r gwaith wedi'i gyflawni. Byddaf yn lanlwytho'r dystysgrif newydd.	Dee Evans	Wedi'i gwblhau
6.	Nid oedd y gwiriadau o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu dogfennu'n gadarn.	Rhaid cadw cofnod cynhwysfawr o'r gwiriadau o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau bod eitemau ar gael a'u bod yn briodol i'w defnyddio.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 31(2)(b)	Ychwanegwyd gwiriad o'r cyffuriau brys at ein rhestr wirio ddyddiol a gaiff ei chwblhau bob dydd gan un o'r nyrsys. Cafodd rhestr gofnodi newydd ei gosod gyda'r cyffuriau brys hefyd a	Dee Evans	Wedi'i gwblhau

				chafodd ei diweddarau.		
7.	Nid oedd y person diogelu dynodedig wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu Plant a Diogelu Oedolion hyd at lefel 3.	Rhaid i'r person diogelu dynodedig gwblhau hyfforddiant Diogelu Plant a Diogelu Oedolion hyd at lefel 3.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 14(1)(b)	Mae'r hyfforddiant wedi'i gwblhau ac mae tystysgrif ar gael fel tystiolaeth.	Dee Evans	Wedi'i gwblhau
8.	Ni chafodd archwiliadau IR(ME)R blynyddol AaGIC eu cwblhau.	Caiff archwiliadau IR(ME)R blynyddol AaGIC eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod ein prosesau sicrhau ansawdd yn gadarn ac y caiff arferion da eu hyrwyddo mewn perthynas ag IR(ME)R.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16	Bydd Dee yn anelu at gwblhau'r archwiliad hwn dros yr ychydig wythnosau nesaf.	Dee Evans	8 wythnos
9.	Nid yw dewisiadau iaith na chydsyniad ar sail gwybodaeth yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion fel mater o drefn.	Rhaid cofnodi dewisiadau iaith a chydsyniad ar sail gwybodaeth yng nghofnodion y cleifion fel mater o drefn.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(1)(a)	Mae hyn wedi bod yn digwydd ers o leiaf 3 mis. Cafodd ei ychwanegu at y nodiadau cyflym i'r		

				deintyddion i'w hatgoffa i holi.		
10.	Nid oedd geirdaon cychwynnol yn y ffeiliau personol ac roedd diweddariadau i ddogfennaeth yn anodd eu dilyn.	Rhaid creu a chynnal ffeiliau personol er mwyn sicrhau y caiff telerau ac amodau cyflogaeth ac addasrwydd y staff eu cofnodi adeg eu cyflogi ac y caiff tystiolaeth glir ei chadw'n barhaus.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 18	Awgrymwyd y dylid llunio contract newydd i bob aelod o'r staff gan nad oedd ychwanegu 'newidiadau dilynol' i gontract yn ddigonol. Rwyf wrthi'n gweithio ar hyn.	Dee Evans	8 wythnos
11.	Tynnwyd sylw at anghysondebau yn y gweithdrefnau cwyno yn y polisi cwyno, y Datganiad o Ddiben a'r taflenni gwybodaeth i gleifion.	Caiff gweithdrefn gwyno glir ei chynnwys ym mhob dogfen sy'n gydnaws â Gweithio i Wella ac sy'n cynnwys cyfeiriadau clir at AGIC fel un ffordd o godi pryder neu gŵyn.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 21	Ymdriniwyd â hyn ar ddiwrnod yr arolygiad.	Dee Evans	Wedi'i gwblhau
12.	Nid oedd archwiliad rhoi'r gorau i smygu wedi'i gwblhau.	Caiff archwiliad rhoi'r gorau i smygu ei gynnal.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)	Byddwn yn anelu at gwblhau'r	Dee Evans	8 wythnos

		2017, Rheoliad 16(1)	archwiliad hwn fel practis	
--	--	-------------------------	-------------------------------	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dee Evans

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 07/01/2026